**Cerdd gair llafar 'Dau Lais'**

**Llais 1**

Ro'n i'n arfer edrych mlaen at weithio. Weithiau bydden ni'n gweld sioe wedyn. Fi oedd biau fy amser fy hun a do'n i byth yn teimlo'n ddrwg am y peth.

**Llais 2**

Mae'n grêt pan fydd Mam yn gwneud yn dda, mae'n gwneud Dad yn hapus hefyd. Mae'n teimlo fel pe bai'r byd yn troi'n gywir. Dwi'n edrych ymlaen at weld i ble mae bywyd yn mynd â fi

**Llais 1**

Nawr gofalu yw fy swydd, ble mae fy ngwyliau blynyddol? Ble mae fy nhâl goramser? Dwi wedi rhoi'r gorau i 'mywyd er mwyn iddi hi gael ei bywyd hi. Dwi wedi ymlâdd, maen nhw'n dweud mod i wedi colli fy arddeliad. Ro'n i'n hapus cyn i fi fod yn ofalwr, a dwi'n teimlo'n euog wrth ddweud hynny. Dwi ddim yn gwybod beth yw fy rôl. Dwi'n gwneud mwy na 'dim ond bod yn dad'. Dwi'n gofalu am eraill ond does neb yn gofalu amdanaf.

**Llais 2**

Dyw heddiw ddim cystal. Gallai fod yn dipyn o amser nes i bethau newid. Dwi'n becso am fy mrawd a chwaer. Dwi'n gwybod y gall pobl helpu, ond dwi ddim yn gwybod ble maen nhw. Dyw'r byd ddim yn troi'n iawn heddiw.

**Llais 1**

Ond bydd yfory'n well. Bydda i'n arwain fy nhîm, a byddan nhw Gwrando arna i. Bydda i wedi cael fy mywyd yn ôl, bydd ffrindiau o 'nghwmpas, mae gen i'r prynhawn yn rhydd! Fe fydda i'n falch o ddweud wrth bobl 'Dwi'n ofalwr', ond nid dyna fydd fy holl fywyd. Byddwn ni'n meddwl am y dyfodol, fy nyfodol i a dyfodol fy mab, ac efallai hyd yn oed edrych ymlaen at. hynny.

**Llais 2**

Yfory, bydd cymorth o 'mlaen. Bydda i'n gwybod ble i ddod o hyd iddo, a fydd dim rhaid ymladd drosto. Bydda i'n cymryd yr hyn alla i, ond pan fydd angen help, bydda i'n codi'r ffôn. Dwi'n adnabod fy nhîm ac maen nhw'n fy adnabod i, rydyn ni yn hyn gyda'n gilydd, yn deulu estynedig. A dwi'n siarad â gofalwyr eraill

weithiau, mae'n dal i fod ychydig yn unig ond o leiaf rydyn ni ar ein pennau ein hunain gyda'n gilydd.